# Croeso

## Mae rhodd yn eich ewyllys yn ffordd hyfryd a chadarnhaol o gefnogi eich GIG lleol ymhell i'r dyfodol.

Wedi i chi ddarparu ar gyfer eich teulu a'ch ffrindiau, bydd rhodd i'ch gwasanaethu gofal iechyd lleol, ni waeth beth fydd ei maint, yn gwneud gwahaniaeth parhaus am genedlaethau i ddod.

Ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i chi am ystyried gadael rhodd i Elusennau Iechyd Hywel Dda yn eich ewyllys. Bydd eich caredigrwydd eithriadol yn ein galluogi i barhau i wella ein gwasanaethau er budd cleifion a defnyddwyr y gwasanaethau, eu teuluoedd a staff GIG, a hynny am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae rhoddion gan gefnogwyr hael tebyg i chi yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gyda'n gilydd, gallwn helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Cofion gorau,**
**Tîm Elusennau Iechyd Hywel Dda**



# Ynglŷn ag Elusennau Iechyd Hywel Dda

Elusennau Iechyd Hywel Dda yw elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac rydym yn bodoli i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd, llesiant a phrofiad cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff y GIG.

Rydym yn teimlo'n angerddol dros gefnogi gwaith y bwrdd iechyd, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd y GIG i boblogaeth o oddeutu 387,000 o bobl.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd y GIG ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'r siroedd sy'n ffinio. Felly gallech adael rhodd i ysbyty, ward neu wasanaeth o'ch dewis, neu ganiatáu i ni, elusen swyddogol y bwrdd iechyd, ddewis defnyddio eich rhodd lle y mae'r angen mwyaf amdani.

Nid yw'r rhoddion elusennol hael a gawn yn disodli cyllid y GIG, ond maent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i wariant craidd y GIG.

Diolch i roddion elusennol, gallwn ariannu prosiectau mawr a bach, gan gynnwys:

- Darparu cysur ychwanegol i gleifion, megis llyfrau a theganau ar ein wardiau plant
- Ariannu'r cyfarpar meddygol mwyaf cyfredol er mwyn sicrhau bod rhagor o gleifion yn elwa ar y datblygiadau technolegol diweddaraf
- Creu amgylchynau mwy croesawgar ar gyfer cleifion a theuluoedd i helpu i wneud yr amser yn yr ysbyty yn fwy cysurus
- Cefnogi mentrau hyfforddi, datblygu a llesiant staff i helpu i ddarparu gofal gwell fyth
- Darparu gwell gofal yn ein cymunedau lleol.



# Sut y gall rhoddion mewn ewyllysiau wneud gwahaniaeth

Mae rhoddion cymynroddol yn cyfrif am 33%* o'n hincwm cyffredinol, felly heb roddion mewn ewyllysiau, ni fyddai'r gwaith a ddarparwn ar draws y bwrdd iechyd yn bosibl. Dyma rai enghreifftiau o'r gwasanaethau gwerthfawr y mae ein cyllid wedi'u cefnogi.

### Canolfan Gofal Integredig Aberaeron

Gwnaed gwelliannau i ganolfan gofal flaenllaw newydd y GIG yng Ngheredigion, diolch i gymynrodd hael. Mae Canolfan Gofal Integredig Aberaeron wedi dod â gofal iechyd a chymdeithasol cydgysylltiedig i gymunedau lleol am y tro cyntaf.

Dywedodd Jina Hawkes, Rheolwr Cyffredinol Gofal Cymunedol a Sylfaenol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Mae etifeddiaeth leol wedi bod yn sylfaenol i ddatblygiad y Ganolfan Gofal Integredig, mae wedi ein galluogi i wella amgylchedd ffisegol y ganolfan a helpu i gadw gwasanaethau'n lleol ac rydym yn hynod ddiolchgar am hynny. I gleifion a theuluoedd, mae cymynroddion yn aml yn ffordd i ddweud diolch am y gofal a gawsant."

### Citiau Cwmwl Canser

Diolch i gymynroddion, rydym wedi gallu prynu Citiau Cwmwl Canser i helpu plant y mae diagnosis o ganser mewn anwylyn yn effeithio arnynt. Mae'r citiau'n costio £30 yr un, a'u nod yw helpu plant a phobl ifanc i ddeall beth yw canser, y triniaethau a roddir, a'r sgileffeithiau y gallant eu hachosi.

Dywedodd Sarah Russell-Saw, Cydgysylltydd Gwybodaeth a Chymorth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Diolch i roddion i Elusennau Iechyd Hywel Dda, rydym wedi gallu prynu offer amhrisiadwy ar gyfer teuluoedd cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser. Yn dilyn diagnosis o ganser, gall teuluoedd ei chael yn anodd cyfleu hyn i blant. Mae meddu ar git i'w helpu i wneud hyn yn allweddol."

* Blwyddyn ariannol 2020-21






# Dewis y math iawn o rodd

## Ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb eich cymorth.

Rydym mor ddiolchgar i'n cefnogwyr caredig sydd, yn hael iawn, wedi gadael rhoddion i'w gwasanaethau GIG lleol yn eu hewyllysiau.

Ar ôl i chi gofio am y rheiny sydd agosaf atoch, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ystyried gadael rhodd yn eich ewyllys i'ch elusen GIG leol.

Mae yna dri phrif fath o rodd:

**Rhodd ariannol** – Efallai yr hoffech adael swm penodedig o arian.

**Rhodd benodol** – Efallai yr hoffech adael eitem megis paentiad, gemwaith neu eiddo.

**Rhodd weddillol** – Efallai y byddwch yn dymuno gadael cyfran o'ch ystad weddillol wedi i bob rhodd ariannol a phenodol gael eu gwneud ac i'r holl gostau gael eu talu.

**Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth.**

**Ni waeth pa mor fawr neu fach, rydym mor ddiolchgar am bob rhodd a gawn.**



# Sut ydw i'n gadael rhodd neu'n newid ewyllys presennol?

Argymhellwn eich bod yn siarad â chyfreithiwr i gael cyngor cyfreithiol ar y ffordd orau o wneud ewyllys neu addasu ewyllys cyfredol, gan fod ewyllys yn ddogfen gyfreithiol bwysig.

Cyn eich apwyntiad gyda'ch cyfreithiwr dewisol, mae'n werth ystyried y canlynol:

- Pa roddion y byddech am eu gadael i'ch teulu a ffrindiau
- Amcangyfrif o werth unrhyw asedau sy'n eiddo i chi
- Unrhyw ddyledion sy'n daladwy gennych
- Pwy yr hoffech i ysgutorion eich ewyllys fod
- Unrhyw elusennau yr hoffech adael rhodd iddynt.

Os byddwch yn penderfynu gadael rhodd yn eich ewyllys i Elusennau Hywel Dda, gallai hyn fod at ddibenion cyffredinol yr elusen neu gellir ei chyfyngu i ddiben penodol. Bydd eich cyfreithiwr yn gallu rhoi cyngor ar eiriad addas i chi ei ystyried, yn debyg i'r enghreifftiau isod:

**Rhodd weddillol (defnydd anghyfyngedig):**
*Rhoddaf weddill fy ystad (neu x% o weddill fy ystad) i Elusennau Iechyd Hywel Dda, sef elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rhif elusen gofrestredig 1147863, a leolir yn Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3BB, yn llwyr at ei dibenion elusennol cyffredinol. Rhoddaf gyfarwyddyd pellach y bydd derbynneb y Prif Weithredwr neu swyddog priodol arall yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yn rhyddhad llawn a digonol ar gyfer y rhodd.*

**Rhodd ariannol neu eitem benodol (defnydd anghyfyngedig):**
*Rhoddaf y swm o [                ] o bunnau (£X) yn rhydd o dreth etifeddiant neu XX (eitem benodol) i Elusennau Iechyd Hywel Dda, sef elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rhif elusen gofrestredig 1147863, a leolir yn Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3BB, yn llwyr at ei dibenion elusennol cyffredinol, a bydd derbynneb y Prif Weithredwr neu swyddog priodol arall yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yn rhyddhad llawn a digonol ar gyfer y rhodd.*

**Sut ydw i'n diwygio ewyllys presennol?**
Mae codisil yn ffordd syml o wneud diwygiadau bach i'ch ewyllys cyfredol, ac yn osgoi'r angen i ailysgrifennu eich ewyllys yn llwyr. Rhaid i godisil gael ei lofnodi ym mhresenoldeb dau dyst, a fydd yn gorfod ei lofnodi hefyd.

Elusennau Iechyd HYWEL DDA Health Charities

**RHODDION** MEWN **EWYLLYSIAU**

# Rwyf wedi cofio Elusennau Iechyd Hywel Dda yn fy ewyllys

Os penderfynwch adael anrheg inni yn eich ewyllys, diolch. Trwy roi gwybod i ni allwch ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Llenwch eich manylion isod a'u dychwelyd i ni.

Enw ____________________

Cyfeiriad ____________________

____________________ Côd Post ____________________

E-bost ____________________

Rhif ffôn ____________________

**I dderbyn ein diweddariadau, ticiwch y blwch isod:**

☐ Rwy'n cydsynio i Elusennau Iechyd Hywel Dda storio fy ngwybodaeth fel y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr elusen, digwyddiadau eraill a ffyrdd y gallaf gefnogi'r elusen yn y dyfodol.

Hoffwn i gysylltu â mi trwy:

E-bost ☐ Post ☐ Y ddau ☐ (ticiwch)

Mae Elusennau Iechyd Hywel Dda yn parchu eich preifatrwydd ac wedi ymrwymo i reoli a diogelu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd parti. Os nad ydych am dderbyn diweddariadau gan Elusennau Iechyd Hywel Dda ar unrhyw adeg, yna cysylltwch â ni. Gweler ein polisi preifatrwydd i gael mwy o wybodaeth – www.elusennauiechydhyweldda.org.uk

**Dychwelwch y cerdyn hwn at Elusennau Iechyd Hywel Dda, Hafan Dderwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3BB.**

# Ein haddewid i chi

- Rydym yn deall ac yn parchu'r ffaith mai eich teulu a'ch ffrindiau sy'n dod gyntaf.
- Rydym yn deall bod hwn yn benderfyniad pwysig, ac ni fyddwn yn rhoi unrhyw bwysau arnoch.
- Byddwn yn ateb unrhyw gwestiynau yn onest ac mor gyflym â phosibl.
- Rydym yn parchu eich preifatrwydd; nid oes rhaid i chi ddweud wrthym os ydych wedi dewis gadael rhodd i ni.
- Byddwn yn defnyddio eich rhodd arbennig yn ofalus ac yn effeithiol, a hynny bob amser yn unol â'ch dymuniadau.
- Os ydych am i'ch rhodd gael ei gwario mewn maes penodol, byddwn yn gwneud ein gorau bob amser i sicrhau bod hynny'n bosibl.

# Rhestr o dermau cyfreithiol

**Buddiolwr** – Unigolyn neu sefydliad sy'n cael etifeddiaeth mewn ewyllys.

**Becwêdd** – Rhodd a adewir mewn ewyllys (a elwir hefyd yn gymynrodd).

**Codisil** – Diwygiad neu ychwanegiad i ewyllys cyfredol, y mae'n rhaid ei lofnodi, ei ddyddio ai dystio.

**Ystad** – Yr arian, yr eiddo a'r meddiannau sy'n eiddo i chi ar eich marwolaeth.

**Ysgutor(ion)** – Y sawl yr ydych yn ei benodi i gyflawni telerau eich ewyllys. Mae ysgutor yn aml yn berthynas, yn ffrind neu'n gyfreithiwr.

**Rhodd ariannol** – Swm penodedig o arian a roddir mewn ewyllys.

**Rhodd weddillol** – Popeth sydd ar ôl mewn ystad (neu gyfran ganrannol benodol o hyn) wedi i'r holl daliadau eraill gael eu gwneud, i gynnwyd dyledion, biliau, trethi a phob rhodd ariannol a phenodol.

**Ewyllyswr** – Unigolyn sy'n gwneud ewyllys dilys.



# Cwestiynau Cyffredin

## A yw ysgrifennu ewyllys yn ddrud?

Gall y costau amrywio, yn dibynnu ar gymhlethdod yr ewyllys. Bydd eich cyfreithiwr yn esbonio'r costau cyn i chi ddechrau.

## A oes rhaid i mi adael swm mawr o arian?

Na, rydym yn gwerthfawrogi pob rhodd. Ni waeth pa mor fawr neu fach, bydd eich rhodd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

## A allaf adael fy rhodd i ward neu wasanaeth penodol?

Cewch; gallwch ddewis gadael rhodd i ysbyty, ward, gwasanaeth neu adran benodol. Ar y llaw arall, os byddwch yn gadael rhodd at ddibenion elusennol cyffredinol, mae hyn yn golygu y caiff eich rhodd ei defnyddio ar yr adeg ac yn y man y mae ei hangen fwyaf.

## A allaf adael rhodd i fwy nag un elusen?

Cewch; gellir gwneud rhoddion i nifer o elusennau yn eich ewyllys. Os oes gennych fwy nag un achos yr ydych am eu cefnogi, siaradwch â'ch cyfreithiwr am hyn.

## Gyda pwy ddylwn i gysylltu am ragor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych: ffôniwch 01267 239815 neu anfonwch neges e-bost i CodiArian.HywelDda@wales.nhs.uk

